Parc Gwledig Llyn Llech Owain, Heol yr Eglwys, Gorslas, SA14 7NF.

Gweithgareddau i Blant yn ystod y Gwyliau 2011

Dydd Iau 2il Mehefin (wythnos hanner tymor)

'Mursennod a Gweision y Neidr' Cyfle i gael golwg ar weision y neidr a mursennod yn Llyn Llech Owain. Dewch i ddysgu mwy am y trychfilod diddorol a hardd hyn. Yn cynnwys sesiwn grefftau byr

Dydd Iau 21ain Gorffennaf 2pm – 3.30pm

'Mawnogydd' Dewch i brofi antur y Mawnogydd ac i ddarganfod beth gall y fawnog ddweud wrthym ni am yr 20,000 mlynedd diwethaf yn Llyn Llech Owain. Cewch gyfle i greu 'mawnog mewn potel' i fynd adref. Gwisgwch esgidiau glaw os oes modd.

Dydd Iau 28ain Gorffennaf 2pm – 3.30pm

'Helfa Drysor' Dewch i gael hwyl yn chwilio am yr atebion i'r cliwiau ar yr helfa ddirgel. Oddeutu milltir a hanner. Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn drwy gydol y gweithgaredd.

Dydd Iau 4ydd Awst 2pm – 3.30pm

'Mamaliaid' Dewch i ddarganfod pa rhai o'r anifeiliaid annwyl a blewog hyn sy'n byw yma yn y Parc. Dewch i weld a oes rhywbeth wedi cael ei ddal dros nos yn ein maglau sy'n dal mamaliaid heb eu niweidio. Yn ogystal, byddwn ni'n chwilio am draciau ac arwyddion o'n mamaliaid sy'n fwy anodd eu gweld.

Dydd Iau 11eg Awst 2pm – 3.30pm

"Bywyd y Pwll" Dewch i weld yr amrywiaeth aruthrol o greaduriaid sydd o dan wyneb ein pwll. Dewch i ddysgu sut mae'r anifeiliaid wedi addasu i'w bywyd yn y dŵr. Darperir yr holl offer. Gwisgwch esgidiau glaw os oes modd. Dewch â dillad sbâr!

Dydd Iau 18fed Awst 11am – 3pm

'Cinio yn y Gwyllt ar gyfer y Teulu' 'Os ydych am efelychu Ray Mears, ymunwch â ni yn y coed i gael cinio o gylch y tân gwersyll (yn cynnwys pysgod, helgig a phlanhigion gwyllt) a dysgu sgiliau newydd ar yr un pryd. Bydd angen cyllell heb fin, a mŵg a bowlen o'r math na fydd yn torri, ar bob plentyn. I ddechrau am 11am. **Rhaid archebu lle ymlaen llaw,** nifer penodol o lefydd fydd ar gael. **£5 fesul plentyn ac oedolyn ar gyfer cost yr holl gynhwysion.** Archebwch o leiaf 10 niwrnod ymlaen llaw. Dim cŵn a dim plant o dan 7 oed os gwelwch yn dda.

Dydd Iau 25ain Awst 2pm – 3.30pm

'Cerfluniau Amgylcheddol' Dewch i ddylunio ac i adeiladu cyfres o gerfluniau (tebyg i arddull Andy Goldsworthy) yn y Parc, o ddeunyddiau naturiol y gellir dod o hyd iddynt yma. Nid oes angen unrhyw allu artistig arbennig!

Dydd Iau 27ain Hydref 2 - 3.30pm (Gweithgaredd i'r teulu yn ystod hanner tymor mis Hydref)

'Cartrefi i'r Creaduriaid' (Eitemau ar gyfer eich gardd bywyd gwyllt) Ymunwch â ni yn y gweithdy yn ystod hanner tymor er mwyn adeiladu cartrefi i greaduriaid megis blychau nythu ar gyfer adar, blychau ystlumod, tiwbiau trychfilod a blychau pathewod. Mae angen defnyddio llawlifiau a morthwylion fel rhan o'r gweithgaredd hwn a hynny o dan oruchwyliaeth fanwl felly dylai 1 oedolyn oruchwylio uchafswm o 2 blentyn sydd yn 7 oed neu'n hŷn. Bydd hi'n bosibl mynd â'r blychau nythu ac ati adref am £4 y bocs ar gyfer costau'r defnyddiau. I archebu lle, a fyddech cystal â ffonio erbyn 22ain Hydref.

Mae'r holl weithgareddau ar gyfer plant anturus 7–12 oed. Dewch i gwrdd â ni y tu allan i'r adeiladau newydd ger y caffi. Rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn drwy'r amser. Mae angen archebu ymlaen llaw ar gyfer rhai gweithgareddau – archebwch cyn gynted ag y bo modd. Gwisgwch ddillad addas ar gyfer yr awyr agored gan mai dim ond os bydd y tywydd yn wael iawn y bydd gweithgareddau'n cael eu canslo. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r parcmyn drwy ffonio 01269 832229 (peiriant ateb).

Llyn Llech Owain Country Park, Church Road, Gorslas, SA14 7NF

Children's School Holiday Activities 2011

Thursday 2nd June (half term week)
'Damsels and dragons' A look at the dragonflies and damselflies at Llyn Llech Owain. Find out more about these fascinating and beautiful insects. Includes a short craft session.

Thursday 21st July 2 p.m. – 3.30 p.m.
'Peat bogs' Come on the peat bog experience and discover what the bog can tell us about the last 20,000 years at Llyn Llech Owain. Make a 'bog in a bottle' to take home. Wear wellingtons if possible.

Thursday 28th July 2 p.m. – 3.30p.m.
'Treasure Trail' Have fun searching out the answers to the clues on this cryptic trail. Approx 1 ½ miles and children must remain accompanied by an adult throughout the activity.

Thursday 4h August 2 p.m. -3.30 p.m.
'Mammals' Find out which of these, often cute and furry animals, live here at the park. See if our humane monitoring traps have caught anything over night. We will also be looking for tracks and signs for our more elusive mammals.

Thursday 11th August 2 p.m. – 3.30 p.m.
"Pond life" Come and see the amazing variety of life found beneath the surface of our pond. Find out how the animals are adapted to their watery way of life. All equipment provided. Wear Wellingtons if possible. Bring a change of clothes!

Thursday 18th August 11a.m. – 3 p.m.
'Bushcraft Lunch for families' If you are a budding Ray Mears join us in the woods for a campfire lunch (including fish, game and wild plants) and learn some new skills at the same time. Bring a blunt knife, unbreakable mug and bowl per child. 11 a.m. start. **Strictly advance bookings only**, numbers will be limited**. £5 per child and per adult to cover ingredients.** Please book at least 10 days beforehand. No dogs or children under 7 years please.

Thursday 25th August 2 p.m. – 3.30 p.m.
'Environmental sculpture' Come and design and construct a series of 'Andy Goldsworthy' style sculptures in the park, out of natural materials found here. No special artistic ability required!

Thursday 27th October 2- 3.30 p.m. (Family activity for October half term)
'Animal homes' (Items for your wildlife garden)
Join us in the workshop at half term to construct some animal homes such as bird nest boxes, bat boxes, insect tubes and dormouse boxes. This activity involves the use of handsaws and hammers under very close supervision so a ratio of 1 adult to max. 2 children required and minimum age of 7 yrs. It will be possible to take home bird boxes etc. at a cost of £4 per box to cover materials. Please phone by 22nd October to book a place.

All activities are aimed at adventurous 7 – 12 year olds. Meet us outside the new buildings adjacent to the café. All children must remain accompanied throughout by an adult. Advance booking is required for some activities – please book as early as possible. Please wear suitable outdoor clothing as activities are only cancelled in very poor weather conditions. For further information phone the rangers on 01269 832229 (answer phone)